WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

John Cook
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynnon
Ffordd Cambrian
Aberhonddu
Powys
LD3 7HP

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 14 Medi 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif Ffôn** | |
| **E-bost** | |
| **Tudalennau** | **1** o **9** |

Annwyl John

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) i gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yr Awdurdod) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth yr Awdurdod â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd yr Awdurdod mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut y mae'r Awdurdod yn mynd i'r afael â heriau ariannol, fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu fy argymhellion;
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.

## Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- roedd amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2012/13:
  - wedi cael eu datblygu yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar lefel briodol ar gyfer sefydliad cymharol fach;
  - wedi cael eu datblygu ar y cyd ag aelodau a staff a'u cymeradwyo'n ffurfiol gan yr Awdurdod wedi hynny;
  - yn helpu i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn nodau corfforaethol tymor hwy yr Awdurdod;
  - yn canolbwyntio'n gyffredinol ar ganlyniadau, yn hytrach na chamau gweithredu;
- mae cynllun gwella'r Awdurdod ar gyfer 2012-13:
  - yn llawer gwell na chynlluniau blynyddoedd blaenorol, gan ddefnyddio fformat sy'n nodi'r cyd-destun perthnasol a'r canlyniadau disgwyliedig ar gyfer pob amcan gwella yn glir;
  - yn cynnwys mesurau a thargedau, lle y bo'n briodol, ar gyfer ei amcanion gwella;
  - yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall cymunedau neu randdeiliaid gynnig amcanion gwella newydd yn ystod y flwyddyn;
  - wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol gan yr Awdurdod a'i gyhoeddi ar ddechrau Mehefin, a oedd cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol.

Fel sefydliad bach, nid yw'r Awdurdod yn cynnal ymgynghoriad eang bob blwyddyn. Roedd amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2012-13 yn seiliedig ar wybodaeth a gafwyd o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys:

- ymgynghoriadau â rhanddeiliaid cymunedol o flynyddoedd blaenorol;
- cyfarfodydd â Chynghorau Cymuned;
- Fforwm Cyfeiriadau i'r Dyfodol a oedd yn cynnwys aelodau;
- gweithdai ar y cyd ar gyfer Timau Rheoli;
- llythyr grant strategol Llywodraeth Cymru;
- gweithdai atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau.

Mae'n bwriadu cynnal ymgynghoriad arall yn ystod mis Hydref 2012 i'w helpu i nodi'r elfennau hynny y byddai rhanddeiliaid yn disgwyl eu gweld mewn gwasanaeth cynllunio ardderchog. Cytunwyd ar yr amcanion gwella ym mis Chwefror 2012, cyn i etholiadau'r cynghorau yng Nghymru arwain at newidiadau yn aelodaeth yr Awdurdod. Fodd bynnag, cafodd y weinyddiaeth newydd gyfle i adolygu'r amcanion gwella pan gawsant eu cyflwyno i aelodau fel rhan o broses sefydlu'r Awdurdod ar gyfer aelodau newydd.

Mae cynllun gwella'r Awdurdod ar gyfer 2012/13 yn welliant sylweddol o gymharu â chynlluniau'r blynyddoedd diwethaf. Mae'r cynllun bellach yn hawdd i'w ddarllen ac yn rhoi mwy o fanylion ynghylch pob amcan gwella, gan ddefnyddio penawdau fel 'Pam ein bod yn canolbwyntio ar yr Amcan Gwella hwn?', 'Beth fyddwn ni'n ei wneud?', 'Sut byddwn ni'n gwneud hynny?' a 'Sut byddwn ni'n gwybod a ydym wedi cyflawni...?'
Er nad yw'r wybodaeth sy'n ymddangos o dan y penawdau hyn, yn enwedig o ran mesurau llwyddiant, bob amser mor ystyrlon ag y byddem yn ei obeithio, unwaith eto, mae hwn yn faes lle gwelir cynnydd sylweddol.

## Ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn gyfyngedig iddo, credaf fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd, ers i mi anfon fy llythyr dyddiedig 22 Gorffennaf 2011 atoch, mae'r Awdurdod wedi gwneud y canlynol:

- cytuno ar gynllun gwella sy'n nodi cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer cyflawni gwelliannau a, lle y bo'n briodol, sefydlu mesurau a thargedau ar gyfer ei amcanion gwella;
- sefydlu rhaglen sy'n sicrhau y gall aelodau graffu ar y cynnydd a wneir tuag at gyflawni amcanion gwella unigol;
- parhau i ddatblygu a defnyddio cardiau sgorio yn seiliedig ar ganlyniadau mewn perthynas â phob amcan gwella;
- gwneud cynnydd o ran ymateb i'n cynigion ar gyfer gwella;
- datblygu dull gweithredu sy'n nodi'r cerrig milltir, yr amserlenni a'r prosesau perthnasol wrth gytuno ar flaenoriaethau'r Awdurdod a sut y cânt eu cyflawni, eu gwerthuso a'u monitro.

### Mae'r Awdurdod wedi ymateb yn gyflym i'n cynigion ar gyfer gwella.

Rwyf wedi nodi sawl cynnig ar gyfer gwella yn y gorffennol. Rhoddir crynodeb o'r cynnydd ar y materion hyn isod a cheir rhagor o fanylion yn Atodiad 1:

- er bod yr adroddiadau perfformiad chwarterol a gyflwynir i aelodau yn dal i gael eu dosbarthu o dan benawdau cyfarwyddiaethau, mae'r Awdurdod bellach yn cynnwys adroddiadau ar eithriadau sy'n ymwneud â'r cynnydd mewn perthynas â blaenoriaethau;
- bydd Pwyllgor Archwilio a Chraffu'r Awdurdod yn derbyn adroddiad cynnydd ar un amcan gwella bob chwarter; mae aelodau wedi cael hyfforddiant ar atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau ac mae'r Awdurdod yn gwneud mwy o ddefnydd ohono fel ffordd o nodi a mesur buddiannau disgwyliedig;
- cyhoeddwyd cynllun gwella'r Awdurdod at y dyfodol ar ddechrau mis Mehefin 2012.

## Mae newidiadau diweddar i aelodaeth yr Awdurdod yn her ac yn gyfle, er ei bod yn rhy gynnar i asesu effaith gyffredinol y newidiadau hyn.

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 24 o aelodau: wyth a benodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad; wyth o Gyngor Sir Powys; dau yr un o Gyngor Sir Fynwy a Chyngor Sir Caerfyrddin; ac un yr un o Gynghorau Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Torfaen, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf. Mae'r aelodau hyn yn gwneud penderfyniadau am flaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau. Yn sgil etholiadau'r cynghorau ym mis Mai 2012, cafwyd 13 o aelodau newydd o blith y 24, gan gynnwys pump nad ydynt erioed wedi bod yn gynghorwyr o'r blaen. Sicrhawyd rhywfaint o barhad, er enghraifft, yn sgil ailbenodi Cadeiryddion yr Awdurdod, ei Bwyllgor Archwilio a Chraffu a'i bwyllgor cynllunio.

Mae cadeirydd yr Awdurdod a'i brif weithredwr o'r farn bod y newid hwn yn gyfle i adfywio'r aelodau a chynnig syniadau newydd. Mae'n wir dweud y gall aelodau heb unrhyw brofiad blaenorol o'r modd y mae awdurdod parc cenedlaethol yn gweithio, yn aml, gyflwyno dadl gryfach dros newid y sefyllfa bresennol. Ar y llaw arall, gall aelodau newydd gymryd mwy o amser i ddeall y cyd-destun y mae awdurdod parc cenedlaethol yn gweithredu ynddo a gallant gael dylanwad critigol ar drefniadau presennol yr Awdurdod a'i gynlluniau ar gyfer gwella. Mae angen hyfforddi a sefydlu aelodau newydd hefyd. Mae'r broses hyfforddi a sefydlu hon eisoes ar waith gyda digwyddiadau datblygu eraill wedi'u cynllunio i aelodau dros y misoedd sydd i ddod. Er bod hyn yn faich gwaith ychwanegol, mae'r Awdurdod o'r farn ei fod yn gyfle ardderchog i feithrin cydberthynas waith broffesiynol rhwng aelodau a swyddogion. Fodd bynnag, daw'r cyfle hwn yn faich sylweddol os bydd enwebeion awdurdodau lleol yn newid yn gyson, fel y gwelwyd yn y gorffennol.

## Mae'r Awdurdod yn parhau i wella'r ffordd y mae'n rheoli perfformiad ac yn nodi ei flaenoriaethau. Er hynny, bydd y gwaith o ymgorffori rhai o'r agweddau mwy heriol ar ei fethodoleg yn her.

Mae'r adran 'Sut byddwn ni'n gwneud hynny?' yng nghynllun gwella'r Awdurdod yn nodi gweithgareddau cyffredinol. Ceir rhagor o fanylion am weithgareddau ategol yn yr adolygiadau rheoli perfformiad unigol. Cynhelir yr adolygiadau hyn bob tri mis ac maent yn cynnwys asesiad o dan benawdau megis:

- ‘Beth fyddaf yn ei wneud?’
- ‘Beth fydd llwyddiant?’ a
- ‘Pa gynnydd sy'n cael ei wneud? A oes angen i unrhyw beth newid yn ystod y chwarter nesaf neu ymhellach ymlaen?'

Paratoir cynlluniau busnes gwasanaethau hefyd ond y gwasanaethau unigol sy'n gyfrifol am ddatblygu'r rhain. Nid oes unrhyw fformat corfforaethol safonol ar gyfer cynlluniau busnes gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd cysylltiadau amlwg rhwng yr enghreifftiau a welsom a blaenoriaethau'r Awdurdod. Cofnodir y camau gweithredu y mae angen eu cymryd ar system feddalwedd monitro perfformiad Ffynnon ac, fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, paratoir cardiau sgorio yn seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer pob amcan gwella.

Fel rhan o nod parhaus yr Awdurdod o wella'i waith craffu a sicrhau ei fod yn canolbwyntio'n fwy ar gyflawni blaenoriaethau, mae'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu wedi cyflwyno rhaglen sy'n cynnwys adolygiad o un amcan gwella bob chwarter.

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012, wedi'i gefnogi gan Gronfa Datblygu Gwaith Craffu Llywodraeth Cymru, aeth yr Awdurdod ati i gynnal prosiect ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i ddatblygu model ar gyfer ymgymryd â gwaith craffu effeithiol o fewn strwythur llywodraethu Awdurdod Parc Cenedlaethol. Yn dilyn hynny, mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu model craffu ac, yn 2012-13, am y tro cyntaf, bydd yn cynnal adolygiadau craffu o un amcan gwella ar gyfer y flwyddyn flaenorol ac un ar gyfer y flwyddyn bresennol.

Yn ddiweddar, mae'r Awdurdod wedi datblygu a mabwysiadu 'Pecyn Cymorth i Gyfarwyddwyr'. Y prif sbardun ar gyfer y fenter hon oedd dyhead yr Awdurdod i wella a symleiddio'r ffordd yr oedd yn monitro, gwerthuso a chyflwyno adroddiadau ar y blaenoriaethau gweithredu a oedd yn gysylltiedig â'i Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol. Cynhaliodd grŵp gorchwyl a gorffen gyfres o weithdai a chyflawnwyd nifer o dasgau, gan gynnwys:

- nodi'r cysylltiadau rhwng rhaglenni gwaith cyfredol, blaenoriaethau gweithredu a chytundebau canlyniadau.
- nodi'r blaenoriaethau gweithredu hynny nad oeddent yn rhan o raglen waith nac yn gysylltiedig â chytundeb canlyniad fel rhai 'amddifad';
- amcangyfrifo gofynion o ran amser staff;
- adolygu cytundebau canlyniadau a phennu cyfrifoldebau adrodd.

Yn seiliedig ar y gwaith hwn, datblygodd y grŵp gorchwyl a gorffen becyn i helpu cyfarwyddiaethau i nodi rhaglenni gwaith blynyddol, gan gynnwys dull sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyfarwyddiaethau gynnal adolygiad blynyddol o raglenni gwaith gan gymheiriaid.

Mae'r gwaith parhaus hwn i ddatblygu'r ffordd y mae'r Awdurdod yn mynd ati i reoli perfformiad a nodi ei flaenoriaethau, gyda phwyslais ar bwysigrwydd canlyniadau, yn hytrach na chamau gweithredu, yn golygu bod potensial sylweddol i wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at sicrhau gwelliannau.  Fodd bynnag, yr her, fel y gwelir yn aml ym maes rheoli perfformiad, fydd sicrhau bod y dull gweithredu eang hwn yn cael ei ymsefydlu a bod aelodau perthnasol o staff yn cadw ato.

## Mae ffocws parhaus yr Awdurdod ar ei swyddogaeth gynllunio yn golygu bod potensial i sicrhau gwelliant pellach

Er mwyn mynd i'r afael â thanberfformiad ei wasanaeth gorfodi cynllunio, mae'r Awdurdod wedi cyflwyno trefniadau rheoli gwahanol i'r swyddogaeth orfodi ar sail dros dro. Mae hyn wedi cael yr effaith a fwriadwyd, sef gwella prosesau gorfodi. Mae'r gwelliant hwn, ynghyd â chynnydd mewn capasiti, wedi arwain at well perfformiad. Bellach, ymdrinnir ag achosion fel y cânt eu derbyn ac mae rhagor o waith yn mynd rhagddo i ddatblygu prosesau er mwyn lleihau'r ôl-groniad o achosion. Bwriad yr Awdurdod yw dychwelyd y swyddogaeth orfodi i'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cynllunio unwaith y bydd yn hyderus na fydd y broses ailintegreiddio yn cael effaith andwyol ar y cynnydd a wnaed eisoes.

Mae rhagoriaeth cynllunio yn parhau i fod yn un o amcanion gwella'r Awdurdod.
Mae'r Awdurdod wedi cytuno ar fesurau yn ei gynllun gwella i fesur i ba raddau y cyflawnir yr amcan hwn yn 2012-13. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod y mesurau hyn yn dibynnu'n helaeth ar gyflymder y gwaith prosesu ac mae'n cydnabod hefyd nad cyflymder yw'r prif ffactor o reidrwydd wrth ddiffinio gwasanaeth cynllunio ardderchog. Fel y cyfryw, mae'n parhau i ystyried ffyrdd mwy priodol o ddiffinio a mesur rhagoriaeth. Cyflwynodd y cyfarwyddwr cynllunio adroddiad i'r Awdurdod ar 30 Ebrill, yn nodi wyth mesur meintiol ac ansoddol a fyddai, yn ei farn ef, yn canolbwyntio'n well ar ganlyniadau. Cymeradwywyd y cynigion gan yr Awdurdod ac, yn amodol ar waith mireinio a chanlyniadau'r ymgynghoriad, disgwylir i'r rhain gael eu mabwysiadu fel mesurau yn 2013-14.

Deallwn fod Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyfarfodydd i drafod sut y gall awdurdodau cynllunio ledled Cymru ddefnyddio mesurau perfformiad mwy ystyrlon. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhan o adolygiad ehangach gan Lywodraeth Cymru o'r fframwaith ar gyfer gwasanaethau cynllunio ledled Cymru. Bydd yn bwysig bod yr Awdurdod yn sicrhau bod unrhyw fesurau a fabwysiedir ganddo yn 2013-14 yn ystyried canlyniadau'r gwaith hwn.

## Ni chaiff buddiannau posibl Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod eu gwireddu'n llawn hyd nes y bydd yn cynnwys gwerthusiad ehangach o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Awdurdod

Mae'r broses o gynhyrchu Datganiad Llywodraeth Blynyddol, a gyflwynwyd yn lle'r Datganiad Rheolaeth Fewnol blaenorol, yn ofyniad cymharol newydd i awdurdodau lleol. Fel gyda chymaint o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae'r Awdurdod yn dal i fireinio'r ffordd y mae'n ei baratoi.

Dylai Datganiad Llywodraethu Blynyddol gynnwys gwerthusiad o effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith yn yr awdurdod, ac nid dim ond disgrifiad o'r trefniadau hynny. Drwy werthuso ei drefniadau mewn ffordd gadarn a heriol, mae Awdurdod mewn sefyllfa llawer gwell i nodi'r gwendidau o ran ei drefniadau a chymryd camau i sicrhau'r gwelliannau priodol. Fel gyda llawer o'r Datganiadau Llywodraethu Blynyddol eraill a baratowyd gan awdurdodau lleol ledled Cymru, ychydig iawn o werthuso a welwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod eleni. Fodd bynnag, roedd y swyddogion a'r aelodau y gwnaethom siarad â hwy yn cydnabod hynny ac, mewn ymateb i'w cais, rhoesom ragor o wybodaeth i'r Awdurdod am sut y gellid cynnwys gwerthusiad yn y dyfodol.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Caiff rhai cynigion newydd ar gyfer gwella eu hawgrymu yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan yr Awdurdod o ran gweithredu'r cynilion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Ystyried cyflwyno fformat corfforaethol ar gyfer cynllunio busnes a all gael ei ddefnyddio gan y gwahanol wasanaethau o fewn yr Awdurdod. |
| C2 | Sicrhau, wrth symud tuag at gyfres newydd o fesurau ar gyfer ei wasanaeth cynllunio, ei fod yn ystyried unrhyw ganlyniadau perthnasol o adolygiad parhaus Llywodraeth Cymru o'r fframwaith ar gyfer gwasanaethau cynllunio ledled Cymru. |
| C3 | Cymryd camau i sicrhau, yn y dyfodol, fod ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol yn cynnwys gwerthusiad cadarn o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Awdurdod. |

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd Tîm yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod yr Awdurdod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflwyno fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried yn ystod y flwyddyn faint y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol). Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Awdurdod am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed fwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus tra'n eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihad mewn adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

John Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

John Roberts, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
| --- | --- |
| 1 Gwella gallu'r Awdurdod i fonitro a gwerthuso gwelliant drwy:<br>• sicrhau bod y strwythur arfaethedig ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn canolbwyntio ar gynnydd mewn perthynas â blaenoriaethau, yn hytrach na dim ond ar berfformiad gwasanaeth;<br>• bod yn glir ynghylch manteision disgwyliedig ei weithgareddau, ac asesu i ba raddau y cyflawnwyd y manteision hynny. | • Mae adroddiadau chwarterol i bwyllgor Archwilio a Chraffu'r Awdurdod bellach yn cynnwys adroddiadau ar eithriadau ar gyfer y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni blaenoriaethau.<br>• Bydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu yn derbyn adroddiad cynnydd ar un amcan gwella bob chwarter.<br>• Parheir i ddatblygu a defnyddio cardiau sgorio sy'n seiliedig ar ganlyniadau mewn perthynas â phob amcan gwella.<br>• Rhoddwyd hyfforddiant i aelodau ar atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau.<br>• Gwneir mwy o ddefnydd o atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau fel ffordd o nodi a mesur buddiannau disgwyliedig.<br>• Mae dangosyddion perfformiad newydd sy'n ceisio canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau a buddiannau i ddefnyddwyr wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer y gwasanaeth cynllunio<br>• Mae adolygiadau rheoli perfformiad a gynhelir bob tri mis gydag aelodau unigol o staff yn gofyn y cwestiwn 'Beth fydd llwyddiant?' |
| 2 Adeiladu ar y gwelliannau a wnaed i'w drefniadau mewnol er mwyn canolbwyntio ar ganlyniadau mesuradwy a'u cyflawni ar gyfer y Parc a'i bobl. | • Parheir i ddatblygu a defnyddio cardiau sgorio sy'n seiliedig ar ganlyniadau mewn perthynas â phob amcan gwella;<br>• Mae dangosyddion perfformiad newydd sy'n ceisio canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau a buddiannau i ddefnyddwyr wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer y gwasanaeth cynllunio<br>• Caiff cardiau sgorio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau eu paratoi ar gyfer pob amcan gwella.<br>• Aethpwyd ati i nodi'r blaenoriaethau gweithredu hynny nad oeddent yn rhan o raglen waith nac yn gysylltiedig â chytundeb canlyniad fel rhai 'amddifad'. |
| 3 Sicrhau y caiff cynlluniau gwella ar gyfer y dyfodol eu cyhoeddi'n llawer cynharach ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol yn y dyfodol. | • Cyhoeddwyd cynllun gwella at y dyfodol eleni ar ddechrau mis Mehefin. |